Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymateb y Llywodraeth ar yr ymgynghoriad ar

# Pensiynau gweithle gwell: Rhoi diddordebau cynilwyr yn gyntaf

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Chwefror 2015

Cm 9000

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **https://www.gov.uk/government/consultations/better-workplace-pensions-putting-savers-interests-first**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn
**Private Pensions Policy and Analysis**
**Department for Work and Pensions**
**1st Floor, Caxton House**
**6-12 Tothill Street**
**London**
**SW1H 9NA**

**E-bost: reinvigorating.pensions@dwp.gsi.gov.uk**

Gwe ISBN 978-1-78425-470-4

Rhif Adnabod 28011511 02/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 4

# Cyflwyniad

1. Mae'r Papur Gorchymyn hwn yn ffurfio ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad Pensiynau Gweithle Gwell a gynhaliwyd rhwng 17 Hydref a 14 Tachwedd 2014. Gwnaeth yr ymarferiad hynny ofyn am farn ar reoliadau drafft i wella llywodraethu cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y gweithle sy'n darparu buddion prynu arian a ddefnyddir ar gyfer cofrestru awtomatig, yn ogystal ag os yw drafftio rheoliadau taliadau drafft yn cyflawni bwriad y polisi. Rydym wedi ymrwymo i greu'r amddiffyniadau cywir ar gyfer cynilwyr, yn arbennig o bwysig nawr bod dros bum miliwn o bobl wedi cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyfer cynllun gweithle, a bydd sawl miliwn yn fwy yn dechrau cynilo neu'n cynilo rhagor erbyn 2018.

2. Wrth i ni ddatblygu'r cynigion yn y rhaglen Pensiynau Gweithle Gwell - yn cwmpasu llywodraethu, taliadau a thryloywder mewn cynlluniau pensiwn gweithle - ymgymerwyd â phroses helaeth a thrwyadl o ddadansoddi ac ymgynghori:

   - Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau Alwad am Dystiolaeth ar safonau llywodraethu mewn cynlluniau pensiwn gweithle Cyfraniadau Diffiniedig[1].
   - Ar wahân, ym mis Medi 2013, cyhoeddodd y Swyddfa Masnach Deg astudiaeth marchnad o bensiynau gweithle cyfraniadau diffiniedig, a gyfrannodd at ddadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r farchnad bensiynau gweithle.
   - Ym mis Hydref 2013, lansiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ymgynghoriad ar daliadau mewn cynlluniau pensiwn gweithle a ddefnyddir ar gyfer cofrestru awtomatig[2].
   - Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau Papur Gorchymyn, *Pensiynau gweithle gwell: Mesurau pellach i gynilwyr*[3] a wnaeth gadarnhau ei fwriad i reoli taliadau mewn cynlluniau pensiwn gweithle penodol a ddefnyddir ar gyfer cofrestru awtomatig, a lansio ymgynghoriad ar lywodraethu mewn cynlluniau gweithle.

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/quality-standards-in-workplace-defined-contribution-pension-schemes
[2] Cm 8737 – https://www.gov.uk/government/consultations/better-workplace-pensions-a-consultation-on-charging
[3] Cm 8840 – https://www.gov.uk/government/consultations/better-workplace-pensions-a-consultation-on-charging

- Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ail Bapur Gorchymyn, *Pensiynau gweithle gwell: Rhoi diddordebau cynilwyr yn gyntaf*[4] yn cadarnhau ei bwriad i wella llywodraethu cynllun galwedigaethol, yn gwneud argymhellion pellach ar sut y dylai'r mesurau taliadau gael eu gweithredu, gan ddarparu cynllun lefel uchel i gyflwyno mwy o dryloywder ynghylch costau a thaliadau maes o law, ac yn lansio ymgynghoriad ar reoliadau drafft sy'n ymwneud â llywodraethu a thaliadau mewn rhai cynlluniau pensiwn galwedigaethol.

3. Mae'r rheoliadau drafft wedi'u diweddaru, i'w gosod gerbron y Senedd heddiw, yn deillio'n bennaf o brif bwerau a gymerwyd yn y Ddeddf Pensiynau 2014, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2015[5].

4. Mae'r Papur Gorchymyn hwn yn cael ei strwythuro fel a ganlyn:

   - Ymateb y Llywodraeth i'w ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft sy'n ymwneud â llywodraethu rhai cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y gweithle.
   - Ymateb y Llywodraeth i'w ymgynghoriad ar ddatblygiad y polisi tuag at daliadau mewn cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y gweithle perthnasol a ddefnyddir ar gyfer cofrestru awtomatig a'r rheoliadau drafft ategol.

5. Mae'r rheoliadau drafft yn ymwneud â'r buddiannau prynu arian a ddarperir gan gynlluniau galwedigaethol yn unig (yn amodol ar eithriadau penodol fel y nodir yn y rheoliadau). Mae'r cwmnïau sy'n darparu pensiynau personol yn y gweithle yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae'r FCA bellach wedi cwblhau eu hymgynghoriadau ar wneud rheolau cyfatebol sy'n ymwneud â llywodraethu a thaliadau ar gyfer y cynlluniau hynny, gan gynnwys cyflwyno Pwyllgorau Llywodraethu Annibynnol (IGCau), a bydd yn cyhoeddi eu rheolau terfynol cyn bo hir. Bydd y rheolau hyn hefyd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2015, ar wahân i'r gwaharddiad ar Ostyngiadau Aelod Gweithredol, a fydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

6. Rydym yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau niferus sydd wedi ymateb i holl ymgynghoriadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys yr un mwyaf diweddar. Rydym wedi cael amrywiaeth eang o safbwyntiau o ystod eang o ffynonellau, a bod y cyfraniad hynny wedi gwella'r broses o lunio polisi a rheoleiddio. Rydym yn credu bod y rheoliadau drafft terfynol a osodwyd gerbron y Senedd yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn cynilwyr a chefnogi'r broses o gyflwyno cofrestru awtomatig gan gynlluniau a darparwyr pensiwn presennol.

## Y camau nesaf ar gyfer gwella pensiynau

7. Mae cam cyntaf yr agenda Pensiynau Gweithle Gwell yn dod i rym o fis Ebrill 2015, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Mae nifer o feysydd lle y mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno mesurau neu ddeddfwriaeth bellach. Mae'r rhain fel a ganlyn:

[4] Cm 8929 – https://www.gov.uk/government/consultations/better-workplace-pensions-putting-savers-interests-first
[5] Yn amodol ar gymeradwyaeth y Sened,bydd y rheoliad drafft sy'n wahardd Gostyngiadau Aelod Gweithredol yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

8. **Tryloywder gwell o gostau a thaliadau:** Ers cyhoeddi "Pensiynau gweithle gwell: Rhoi diddordebau cynilwyr yn gyntaf", mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r FCA mewn perthynas â cham nesaf y gwaith i gyflwyno mwy o dryloywder o gostau a thaliadau. Bydd hyn yn adeiladu ar y gofynion llywodraethu newydd ar gyfer adrodd costau a thaliadau yn Natganiad blynyddol y Cadeirydd ac adroddiad blynyddol IGC. Mae galwad am dystiolaeth ar y cyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/FCA yn cael ei gynllunio ar gyfer ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2015. Bydd hyn yn disgrifio'r ymchwil a wnaed hyd yma mewn perthynas ag adrodd am gostau a thaliadau, gan gyfeirio'n benodol at gostau trafodion, a bydd yn gofyn am farn rhanddeiliaid mewn perthynas â sut y gall y costau a thaliadau cael eu hadrodd mewn fformat safonol, cyson a chymaradwy a pha fecanweithiau a all fod yn addas i alluogi'r adroddiadau hyn ddigwydd. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r FCA yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer hwn i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn ystod 2015, gyda'r golwg o ymgynghoriad ar sut y bwriadwn gyflwyno taliadau ychwanegol a chostau thryloywder. Bydd y FCA hefyd yn ymgynghori ar gostau newydd tebyg a gofynion taliadau tryloywder mewn perthynas â phensiynau personol yn y gweithle.

9. **Rheoliadau'r Comisiwn:** Cyhoeddodd y Llywodraeth yn ei Bapur Gorchymyn ym mis Mawrth 2014 y bydd pob taliad comisiwn ymgynghorydd a wnelo ag aelod yn cael ei wahardd mewn cynlluniau cymwys a ddefnyddir ar gyfer cofrestru awtomatig o fis Ebrill 2016. Mae ymgynghoriad diweddar y FCA yn cynnwys rheolau drafft i wahardd y taliadau hyn mewn cynlluniau pensiwn personol yn y gweithle, yn ogystal â thaliadau ymgynghoriaeth (i'w gwahardd o fis Ebrill 2015). Sefydlwyd taliadau ymgynghoriaeth yn rheolau'r FCA fel dewis arall i gomisiwn ar gyfer Pensiynau Grŵp Personol a Phensiynau Grŵp Rhanddeiliaid, yn dilyn yr Adolygiad Dosbarthu Manwerthu. Yn ystod 2015, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ymgynghori ar reoliadau cyfatebol ar gyfer cynlluniau galwedigaethol a ddefnyddir fel cynlluniau cymwys ar gyfer cofrestru awtomatig. Byddwn hefyd yn ystyried a dylai'r rheoliadau hyn gael eu cynllunio yn y fath fodd i atal y gwaith o ddatblygu taliadau arddull-ymgynghoriaeth mewn cynlluniau galwedigaethol yn y dyfodol.

10. **Adolygiad ôl-weithredu:** Yn 2017, bydd y Llywodraeth a rheoleiddwyr yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r holl fesurau Pensiynau Gweithle Gwell i asesu eu heffeithiolrwydd i ddiogelu cynilwyr gan daliadau uchel ac annheg, gwella llywodraethu mewn diddordebau aelodau a chynyddu tryloywder o gostau a thaliadau trwy gydol y gadwyn gwerth. Yn benodol, bydd yr adolygiad yn ystyried lefel y cap ac a yw hyn yn parhau i fod yn briodol, neu a ddylai gael ei newid, ac a ddylid cynnwys rhai neu holl gostau trafodion o fewn y cap.

ISBN 978-1-78425-470-4

(h) Hawlfraint y Goron 2015

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Chwefror 2015

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**